# Adran chwech: Datblygiadau arolygu

Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn disgrifio datblygiadau newydd mewn arolygu ac yn esbonio sut y byddwn ni'n gweithio gydag arolygiaethau eraill o dro i dro.

## Datblygu'r fframwaith arolygu cyffredin

Dros y tair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio ar ddull newydd o arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  O ganlyniad, ym mis Medi 2004, fe ddechreuon ni ddefnyddio'r un fframwaith arolygu i arolygu'r rhan fwyaf o ddarparwyr yng Nghymru.  Yr eithriadau oedd awdurdodau addysg lleol a lleoliadau nas cynhelir i blant dan bump oed (meithrinfeydd a grwpiau chwarae yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol).  Ym mis Medi 2002, fe gyflwynon ni'r fframwaith a'r trefniadau newydd ar gyfer sefydliadau addysg bellach a cholegau hyfforddi athrawon.  Mae'r fframwaith yn dweud sut rydyn ni'n asesu'r safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni, ansawdd addysg a hyfforddiant ac arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwr.   Mae gan yr arolygiadau yma rai nodweddion cyffredin sy'n cynnwys:

- rhoi hyd yn oed mwy o sylw nag o'r blaen i brofiadau a chyflawniadau dysgwyr;
- defnyddio arfarniad y darparwr ei hun o'i berfformiad fel man cychwyn yr arolygiad;
- cael gwahanol fathau o arolygiadau, yn dibynnu ar ba mor dda mae'r darparwr yn cyflawni;
- cael athro, gweithiwr ieuenctid, ymgynghorydd gyrfa neu hyfforddwr fel aelod o'r tîm arolygu; a
- gwahodd aelod o staff y darparwr i weithio gyda'r tîm arolygu.

Mae mwy o wybodaeth am ein trefniadau arolygu ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk.  Yno, fe gewch chi fanylion ar y fframwaith arolygu cyffredin ac arweiniad arolygu (llawlyfrau) ar gyfer bob sector.  Mae arweiniad ychwanegol hefyd ar bynciau fel gwrando ar ddysgwyr yn ystod arolygiad.

## Arolygu ysgolion annibynnol

Fel amod eu bod wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydyn ni'n arolygu pob ysgol annibynnol.  Yn y gorffennol, ymweliadau arolygu byr oedd yn cael eu cynnal gennym mewn ysgolion annibynnol.  Doedden ni ddim yn cyhoeddi adroddiadau ond yn eu hanfon nhw at Lywodraeth

Cynulliad Cymru yn lle hynny. Rydyn ni hefyd yn ymweld ag ysgolion arbennig annibynnol bob blwyddyn yn yr un modd.

O fis Medi 2004, fe wnaethon ni ddechrau arolygu ac adrodd yn gyhoeddus ar bob ysgol annibynnol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu llawlyfr ar y trefniadau newydd ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol. Mae'r llawlyfr yn rhestru'r safonau y mae'n rhaid i ysgolion eu cyrraedd cyn iddyn nhw gofrestru. Bydd adroddiadau ein harolygiadau'n dweud a yw'r ysgolion yma'n cyrraedd y safonau yma neu beidio. Byddwn ni'n arolygu ac yn cyhoeddi adroddiadau ar bob ysgol bob chwe blynedd.

Mae'r cynlluniau ar gyfer yr arolygiadau yma ar waith ers tro. Rydyn ni wedi ymgynghori'n eang ar y trefniadau arolygu ac wedi sefydlu fforwm arolygu sydd â chynrychiolwyr o ysgolion annibynnol. Y fframwaith arolygu cyffredin fydd sail ein harolygiadau. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi arweiniad i esbonio sut y byddwn ni'n defnyddio'r fframwaith i gynnal arolygiadau.

## Arolygu 'datblygu cynaliadwy'

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn rhoi sylw i ddatblygu cynaliadwy. Bydd arolygwyr yn awr yn asesu ac yn adrodd ar ba mor dda mae darparwyr yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae datblygu cynaliadwy'n golygu gwella ansawdd bywyd nawr heb ei roi mewn perygl i'r dyfodol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae darparwyr addysg a hyfforddiant wedi rhoi mwy o sylw i ddatblygu cynaliadwy. Mae darparwyr yn ennill gwobrau fel Ysgolion Eco neu safon Y Ddraig Werdd. Ond mae gormod o ddarparwyr o hyd yn methu rhoi digon o sylw i ddatblygu cynaliadwy, er ei fod yn un o brif nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I gyrraedd y nod yma, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio cynllun yn ddiweddar a fydd yn arwain y gwaith yma mewn addysg a hyfforddiant. Bydd angen i ddarparwyr ofalu eu bod nhw'n bodloni'r nodau yn y cynllun yma. Mae angen iddyn nhw ofalu hefyd fod pob dysgwr yn deall effeithiau'u gweithredoedd ar yr amgylchedd, arnyn nhw'u hunain ac ar bobl eraill, nawr ac yn y dyfodol.

## Arolygu lleoliadau nas cynhelir i blant dan bump oed

Rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) i arolygu lleoliadau i blant dan bump oed nas cynhelir gan awdurdodau addysg lleol, ond sy'n cael eu cynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (mae esboniad yn yr eirfa). Meithrinfeydd, grwpiau chwarae, lleoliadau gofal

dydd a gofalwyr plant yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol yw'r rhain.  Mae'n rhaid i'r lleoliadau yma gofrestru gydag ASGC fel darparwyr addysg i blant dan bump oed.  Rydyn ni'n arolygu'r addysg y mae'r lleoliadau yma'n ei darparu.

Ar hyn o bryd, mae gennym system wahanol ar gyfer yr arolygiadau yma i'r un ar gyfer ysgolion awdurdod lleol.  Yn y dyfodol, rydyn ni'n bwriadu gwella'n harolygiadau o leoliadau ar gyfer pob plentyn dan bump oed, p'un a ydyn nhw mewn ysgol neu yn rhywle arall, trwy:

- ddefnyddio'r un dull arolygu ar gyfer plant dan bump oed; a
- gweithio gydag ASGC i gynnal arolygiadau ar yr un pryd.

At ei gilydd, bydd y newidiadau yma'n ein galluogi ni i:

- gael gwybodaeth fwy cywir a manwl am safonau a darpariaeth;
- gofalu nad ydyn ni yn arolygu lleoliadau'n rhy aml; a
- rhoi barn fwy cynhwysfawr ar y ddarpariaeth i blant ar draws pob lleoliad yng Nghymru.

## Arolygu awdurdodau addysg lleol

Ym mis Ebrill 2002, fe gafodd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG) ei chyflwyno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru.  Roedd y fframwaith yma'n disodli'r fframwaith arolygu Gwerth Gorau blaenorol.  Mae RhCG yn gofyn am ddull mwy hyblyg o weithredu gan awdurdodau lleol a'r rhai sy'n eu harolygu nhw.

Yn Estyn, rydyn ni'n aelod o Fwrdd Gwella Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol Cymru a phawb sy'n eu harolygu.  Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill yn y system y mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru wedi'i sefydlu.  Mae'r system yma'n helpu'r arolygiaethau i gydlynu'u gwaith o fewn RhCG.  Yn ein harolygiadau o awdurdodau addysg lleol (AALlau) dan adran 38 Deddf Addysg 1997, rydyn ni'n cyflogi arolygwyr o dîm AALl y Comisiwn Archwilio, sydd â phrofiad o arolygu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Eleni, mi wnaethon ni gynnal adolygiad o'r modd yr ydym ni'n arolygu awdurdodau lleol.  Fel rhan o'r adolygiad, mi ofynnon ni i awdurdodau lleol, y Comisiwn Archwilio a'n partneriaid eraill am eu barn ar y ffordd orau ymlaen.  Yna, mi wnaethon ni lunio cynigion ar ffordd newydd o arolygu awdurdodau lleol o fis Ebrill 2006.  Ein bwriad fyddai seilio ein harolygiadau

i raddau mwy nag ydyn ni ar hyn o bryd ar asesiad risg o waith pob awdurdod. Bydden ni hefyd yn rhoi ystyriaeth i safbwynt yr awdurdodau eu hunain ar sut a phryd y dylai eu gwasanaethau gael eu harolygu. Mi wnaethon ni ymgynghori â'n partneriaid i gyd ar y bwriadau hyn yn nhymor yr hydref 2004.

## Arolygu'r system cyfiawnder ieuenctid

Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i arolygu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sydd wedi torri'r gyfraith neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n arolygu Timau Troseddau Ieuenctid, sefydliadau troseddwyr ifanc a'r un cartref diogel i blant o eiddo awdurdod lleol (mae esboniad yn yr eirfa) yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio gydag OFSTED (Office for Standards in Education) i arolygu sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr lle mae llawer o bobl ifanc o Gymru.

Mae ein partneriaid yn y gwaith yma'n cynnwys:

- Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- OFSTED;
- Yr Arolygiaeth Dysgu Oedolion;
- Arolygiaeth Prawf EM;
- Arolygiaeth Carchardai EM;
- Arolygiaeth Heddlu EM; a
- Comisiwn Gofal Iechyd.

Mae amrywiaeth yr arolygiaethau sy'n ymwneud â'r gwaith yn golygu bod timau arolygu'n elwa ar wahanol arbenigeddau. Fe all y tîm wedyn farnu profiad cyffredinol person ifanc. Fe all arolygwyr ofyn cwestiynau am yr holl feysydd sy'n effeithio ar fywyd person ifanc, gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae'r dull gweithredu yma'n rhoi darlun llawer cliriach o safonau ac ansawdd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

## Monitro ansawdd arolygiadau ac adroddiadau ysgolion

Mae'r rhan fwyaf o arolygiadau ysgol yn cael eu cynnal gan gontractwyr y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Rydyn ni'n monitro ac yn asesu ansawdd arolygiadau mewn lleoliadau nas cynhelir i blant dan bump oed (meithrinfeydd a grwpiau chwarae yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol), ac mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae ein monitro ni'n dweud wrthyn ni am ansawdd arolygiadau a pha mor dda mae arolygwyr yn ysgrifennu adroddiadau.

Rydyn ni'n asesu:

- 20% o arolygiadau drwy ymweliadau rhybudd byr; ac
- adroddiad pob arolygiad.

Mewn 98% o'r arolygiadau a gafodd eu monitro gennym, fe wnaeth yr arolygwyr cofrestredig gyrraedd ein safonau ansawdd gofynnol.  Mewn nifer fach iawn o arolygiadau ysgolion cynradd, wnaeth yr arolygydd cofrestredig ddim cyrraedd y safonau yma.

Rydyn ni'n darllen ac yn asesu adroddiad pob arolygiad ysgol.  O'r rhain, fe wnaeth 96% gyrraedd ein safonau ansawdd gofynnol.  Heb ddilyn y fformat cywir wnaeth rhai o'r adroddiadau oedd yn methu cyrraedd y safonau gofynnol.  Adroddiadau ar ysgolion meithrin oedd y rhan fwyaf o'r rhain.

Mewn ychydig dros hanner yr arolygiadau ysgolion y llynedd, roedd gwaith y tîm arolygu o'r safon uchaf sy'n cael ei disgwyl gennym.  Ond dim ond un adroddiad o bob pump wnaeth gyrraedd yr un safon uchel.

Rydyn ni'n rhoi adborth i arolygwyr a chontractwyr ar ein harfarniadau, ac yn defnyddio'r canfyddiadau yma i gynllunio hyfforddiant ar eu cyfer.   Mae ein rhaglenni ni ar gyfer monitro, hyfforddi a datblygu arolygwyr yn ganolog i'n hymdrechion i warantu'r ansawdd uchaf posib ym mhob arolygiad.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Adeiladu Sgiliau | Rhaglen hyfforddi i bobl ifanc yw hon, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion dysgu neu anabledd, ac sydd heb benderfynu eto ar y math o waith yr hoffen nhw ei wneud. Mae'n cynnig cyfle iddyn nhw ennill cymwysterau cenedlaethol. |
| Arolygiad ardal | Mewn arolygiadau ardal, rydyn ni'n arolygu ansawdd math arbennig o addysg a hyfforddiant mewn ardal benodol yng Nghymru, ac yn holi faint sydd ar gael. |
| Bagloriaeth Cymru | Mae hwn yn gymhwyster i ddysgwyr dros 16 oed yng Nghymru. Mae'r cymhwyster yn cyfuno cymwysterau presennol fel Safonau Uwch (astudiaethau safon uwch) gydag astudiaethau craidd gorfodol. |
| Bwrdd gwyn electronig | Mae bwrdd gwyn electronig fel sgrin cyfrifiadur mawr y mae'r dosbarth cyfan yn gallu'i weld. Mae'n sensitif i gyffwrdd, ac mae'n galluogi'r athro/athrawes i weithredu holl offer llywio cyfrifiadur. Mae'r athro/athrawes neu'r disgybl yn gallu ysgrifennu arno drwy ddefnyddio marciwr electronig. |
| CGCC | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol |
| Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant | Mae'r rhain yn chwe maes dysgu a phrofiad sydd wedi'u bwriadu i helpu plant i fodloni gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol pan maen nhw'n bum mlwydd oed. Y meysydd yw:<br>• iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>• datblygiad personol a chymdeithasol;<br>• datblygiad mathemategol;<br>• gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono;<br>• datblygiad corfforol; a<br>• datblygiad creadigol. |
| Canolfan Byd Gwaith | Y Ganolfan Byd Gwaith yw'r sefydliad sy'n delio â phobl ddi-waith ac sy'n eu helpu nhw i ddod o hyd i swyddi. |

| | |
|---|---|
| Canolfannau Blynyddoedd Cynnar Integredig | Mae'r canolfannau yma'n cael eu datblygu drwy Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Fel arfer, maen nhw'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau, fel gwasanaeth 'galw i mewn', ymwelwyr iechyd, a dysgu i'r teulu ochr yn ochr ag addysg feithrin. |
| Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH) | Grwpiau lleol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant i ddysgwyr dros 16 oed yw'r rhain. Mae pob CCAH yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio a darparu addysg a hyfforddiant yn lleol. |
| Cwricwlwm Cymreig | Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n helpu disgyblion i ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. |
| Cyflawniad | Mae arolygwyr yn barnu cyflawniad yn ôl pa mor dda mae dysgwyr yn ei wneud mewn perthynas â'u gallu a'r cynnydd maen nhw'n ei wneud. |
| Cyfnod Sylfaen | Menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hon sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Mae 41 o leoliadau'n rhoi'r fenter ar brawf o fis Medi 2004. Ei nod yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog mewn saith maes dysgu i gwrdd â gwahanol anghenion datblygiad plant bach.<br><br>Y saith maes dysgu yw:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, a lles;<br>• iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>• datblygiad mathemategol;<br>• dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol;<br>• gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono;<br>• datblygiad corfforol; a<br>• datblygiad creadigol. |
| Cyfnodau allweddol | Mae ysgolion yn rhannu cyfnod addysg orfodol yn bedwar cyfnod allweddol, fel hyn: |

| | |
|---|---|
| | • cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion 5 i 7 oed;<br>• cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion 7 i 11 oed;<br>• cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion 11 i 14 oed;<br>• cyfnod allweddol 4 i ddisgyblion 14 i 16 oed. |
| Cynllun iaith Gymraeg | Mae hwn yn esbonio sut mae corff cyhoeddus yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith eu hunain yn gwbl arferol. |
| Cyrhaeddiad | Mae cyrhaeddiad yn golygu pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud, o fesur hynny mewn profion cenedlaethol ac yn y cymwysterau a'r credydau y maen nhw'n eu hennill. |
| Dangosydd pwnc craidd | Y dangosydd pwnc craidd yw canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel sy'n cael ei disgwyl ganddyn nhw mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (fel mamiaith). |
| E-ddysgu neu ddysgu ar-lein | Defnyddio technoleg electronig (megis cyfrifiaduron) i gefnogi neu gyflwyno addysg neu hyfforddiant. |
| Fframwaith cymhwyster | Mewn hyfforddiant yn y gweithle, i fodloni gofynion y Cyngor Sgiliau ar gyfer pob sector hyfforddiant, mae'n rhaid i hyfforddeion ennill un neu fwy o gymwysterau medrau allweddol neu dystysgrif dechnegol yn ogystal â Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) i gyflawni fframwaith cymhwyster llawn. |
| Fframwaith Plant a Phobl Ifanc | Mae hwn yn gorff statudol sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol i gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc o'u geni hyd at 25 oed. |
| Gwasanaethau Cynhaliaeth Ieuenctid (GCI) | Mae gwasanaethau cynhaliaeth ieuenctid yn helpu pobl ifanc, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i:<br>• gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant; |

| | |
|---|---|
| | • manteisio ar gyfleoedd swyddi; a<br>• cymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. |
| Lleoliadau diogel | Mannau lle mae pobl ifanc yn cael eu cadw dan warchodaeth yw lleoliadau diogel.  Mae'r lleoliadau yma'n:<br>• gartrefi diogel i blant dan awdurdod lleol;<br>• canolfannau hyfforddi diogel;<br>• sefydliadau i droseddwyr ifanc; ac<br>• unedau i bobl ifanc neu droseddwyr ifanc mewn carchar. |
| Maes rhaglen | Grŵp o gyrsiau mewn pynciau tebyg yw hwn. |
| Medrau allweddol<br>(i ddisgyblion 16 oed ac iau) | Y medrau allweddol yw:<br>• siarad;<br>• gwrando;<br>• darllen;<br>• ysgrifennu;<br>• defnyddio rhif (rhifedd); a<br>• defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).<br><br>Y medrau allweddol ehangach i ddisgyblion dros 14 oed yw:<br>• datrys problemau;<br>• gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun; a<br>• gweithio gydag eraill. |
| Medrau allweddol<br>(i ddysgwyr dros 16 oed) | Y prif fedrau allweddol yw:<br>• cyfathrebu;<br>• cymhwyso rhif; a<br>• defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).<br><br>Y medrau allweddol ehangach yw:<br>• datrys problemau;<br>• gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun; a<br>• gweithio gydag eraill. |
| Medrau sylfaenol | Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg, a defnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i weithredu yn y gwaith ac mewn cymdeithas. |

| | |
|---|---|
| Modiwlau arwain ysgolion | Fe gafodd y rhain eu datblygu i gynorthwyo staff sydd ag uchelgais o ymuno ag uwch dîm rheoli ysgol, neu sy'n aelodau hen neu newydd ohono, os ydyn nhw'n dymuno ymgeisio am y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid neu beidio. |
| Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Mae hwn yn gorff statudol sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol i gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed. Mae hwn yn cynnwys ysgolion yn ogystal â grwpiau chwarae a meithrinfeydd yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. |
| Partneriaeth Pobl Ifanc (PPI) | Partneriaeth statudol o ddarparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid yw Partneriaeth Pobl Ifanc. Mae'r darparwyr yma'n cynnwys y sector statudol a'r sector annibynnol a gwirfoddol. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth ofalu bod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael eu cynllunio'n dda a'u darparu ar draws ardal awdurdod lleol, ac mae'n rhaid iddi ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau y maen nhw eu hangen. |
| Plant sy'n derbyn gofal | Derbyn gofal yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio pob plentyn sy'n destun gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety yn wirfoddol am dros 24 awr. |
| Porth Ieuenctid | Mae Porth Ieuenctid yn rhaglen sy'n cael ei chynnal gan gwmnïau gyrfa i gynorthwyo pobl ifanc wrth iddyn nhw symud i'r farchnad swyddi, hyfforddiant neu addysg bellach. |
| Pwynt canran | Er enghraifft, mae cynnydd o 30% i 33% yn gynnydd o 3 pwynt canran, nid cynnydd o 3% (mae'n gynnydd o 10% mewn gwirionedd). |
| Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Gwobrwyo (ASDAN) | Rhaglenni addysg yw'r rhain sy'n ystyried profiadau dysgwyr bob dydd ac yn eu hannog nhw i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu'u hunain. |

| | |
|---|---|
| Sefydliad yr Iwerydd | Sefydliad byd-eang sy'n mynd ati i addysgu medrau meddwl sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu hunan-barch a hunan-hyder fel bod unigolion yn gallu cyflawni'u potensial llawn. |
| Sylfaen i waith | Cwrs hyfforddi yn y gweithle ar gyfer dysgwyr sydd â nifer fach neu ddim cymwysterau wrth adael yr ysgol, ac sydd heb benderfynu eto ar lwybr hyfforddi i'w ddilyn. |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) | Nod Timau Troseddau Ieuenctid yw atal pobl ifanc rhag torri'r gyfraith neu'u helpu i beidio â gwneud hynny eto. |
| Timau cymorth ymddygiad | Grwpiau o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu disgyblion wella'u hymddygiad yw timau cymorth ymddygiad. |
| Uned cyfeirio disgyblion (UCD) | Ysgolion sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu cynnal gan awdurdod addysg lleol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol yw unedau cyfeirio disgyblion. Mae disgyblion fel arfer yn mynychu UCDau am iddyn nhw fod yn absennol neu am iddyn nhw gael eu gwahardd o'u hysgol, neu oherwydd na fydden nhw fel arall yn cael addysg addas. |
| Ymddiriedolaeth y Tywysog | Elusen genedlaethol sy'n cynnig amrywiaeth o raglenni ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig y rheini o'r cymunedau sydd fwyaf dan anfantais, i'w helpu nhw ddod o hyd i swyddi. |
| Ysgolion y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddyn nhw neu ysgolion â gwendidau difrifol | Rhaid rhoi mesurau arbennig ar waith mewn ysgol os yw'r ysgol yn methu neu'n debygol o fethu â rhoi safon dderbyniol o addysg i'w phlant.<br><br>Er ei bod yn rhoi safon addysg dderbyniol i'w disgyblion, mae gwendidau difrifol gan ysgol os oes ganddi wendidau difrifol mewn un neu fwy o'i meysydd gweithgareddau. |
| Ysgol Gymraeg | Ysgol sy'n addysgu dros hanner y pynciau yn Gymraeg yw ysgol Gymraeg. |

## Atodiad 1

## Canlyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgwyr (fel sy'n cael ei ddisgrifio yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' tudalennau 61-65)


| Dysgwyr | Safon | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Dosbarthiadau ar gyfer disgyblion o bob oed | Mae'r safonau cyflawniad yn foddhaol o leiaf mewn dosbarthiadau a gafodd eu harolygu gan Estyn | 95% neu fwy o ddosbarthiadau erbyn 2002<br><br>98% o ddosbarthiadau erbyn 2007 |
| | Mae'r safonau cyflawniad yn dda neu'n dda iawn mewn dosbarthiadau a gafodd eu harolygu gan Estyn | 50% neu fwy o ddosbarthiadau erbyn 2002<br><br>65% o ddosbarthiadau erbyn 2007 |
| Cyfnod allweddol 2 | Mae disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf ym mhob un o'r pynciau ar wahân, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth | 70-80% o ddisgyblion erbyn 2002<br><br>80-85% o ddisgyblion erbyn 2004-2007 |
| Cyfnod allweddol 3 | Mae disgyblion yn cyrraedd lefel 5 o leiaf ym mhob un o'r pynciau ar wahân, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth | 70-80% o ddisgyblion erbyn 2002<br><br>80-85% o ddisgyblion erbyn 2004-2007 |
| Cyfnod allweddol 4 | Mae disgyblion yn ennill TGAU graddau A* i C neu gyfwerth ym mhob un o'r pynciau ar wahân, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth | Fe ddylen nhw fod yn uwch na phwynt canol yr amrediad 40-60% o ddisgyblion erbyn 2004 |
| | Mae disgyblion yn ennill o leiaf 5 TGAU graddau A* i C neu gyfwerth (mae esboniad yn yr eirfa) | 54% o ddisgyblion erbyn 2002<br><br>58% o ddisgyblion erbyn 2004 |
| | Mae disgyblion yn ennill o leiaf 5 TGAU graddau A* i G neu gyfwerth (mae esboniad yn yr eirfa) | 91% o ddisgyblion erbyn 2002<br><br>95% o ddisgyblion erbyn 2004 |

## Canlyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgwyr

| Dysgwyr | Safon | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | Nifer y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig | 15% yn is na 1999 erbyn 2002<br><br>25% o ddosbarthiadau yn is na 1999 erbyn 2004 |
| | Ysgolion â llai na 25% o ddisgyblion 15 oed sy'n ennill o leiaf 5 TGAU graddau A* i C neu gyfwerth | Dim â llai na 25% erbyn 2002<br><br>Dim â llai na 30% erbyn 2004 |
| Bechgyn a merched | Y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched | Lleihau'r gwahaniaeth o 50% erbyn 2002 yn erbyn bwlch 1996<br><br>Lleihau'r gwahaniaeth o 55% erbyn 2004 yn erbyn bwlch 1996 |
| Disgyblion uwchradd | Lleihad yn nifer yr absenoldebau mewn Ysgolion Uwchradd | Islaw 8% erbyn 2004 |
| Dysgwyr eraill | Nifer y cyrsiau addysg bellach i gyrraedd y safon uchaf | 15% i gyrraedd gradd 1 a 70% i gyrraedd gradd 1 a 2 erbyn 2003 |

**Atodiad 2: Y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni mewn medrau allweddol yn yr ysgolion cynradd**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 3: Y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni mewn medrau allweddol yn yr ysgolion uwchradd**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.


**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**

Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.


**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.


**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**

Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.


**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**


Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

**Atodiad 4: Y safonau mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn eu cyflawni yn y gwahanol bynciau**

Canran y dosbarthiadau




Yn y tablau lle mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddan nhw'n gwneud cyfanswm o 100.

## Atodiad 5

Siart o nifer y colegau addysg bellach yn ennill pob gradd yn y meysydd rhaglen a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Maes rhaglen | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Astudiaethau mynediad** | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| 2000-2001 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Celf a dylunio** | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 2 | 4 | 1 | 0 | 0 | 7 |
| 2000-2001 | 2 | 5 | 1 | 0 | 0 | 8 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Y celfyddydau perfformio** | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| 2000-2001 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 | 7 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Gwyddoniaeth gymhwysol** | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| 2002-2003 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| **Busnes a rheoli** | | | | | | |
| 2003-2004 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| 2001-2002 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 1999-2000 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 6 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |

Siart o nifer y colegau addysg bellach yn ennill pob gradd yn y meysydd rhaglen a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Maes rhaglen | Grade 1 | Grade 2 | Grade 3 | Grade 4 | Grade 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal ac iechyd | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 1 | 0 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| 2001-2002 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| 2000-2001 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Cyfrifiadureg | | | | | | |
| 2003-2004 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 5 | 0 | 0 | 7 |
| Adeiladu | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2000-2001 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 3 | 1 | 0 | 5 |
| Peirianneg | | | | | | |
| 2003-2004 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 2000-2001 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| 1999-2000 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Addysg gyffredinol | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 2 | 1 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| 2001-2002 | 0 | 1 | 3 | 1 | 0 | 5 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 5 |
| Trin gwallt a harddwch | | | | | | |
| 2003-2004 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| 2002-2003 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 5 |
| 2000-2001 | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |

Siart o nifer y colegau addysg bellach yn ennill pob gradd yn y meysydd rhaglen a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Maes rhaglen | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Astudiaethau'r tir (er enghraifft amaethyddiaeth) | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2001-2002 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Ysgrifenyddol a thechnoleg swyddfa | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 1999-2000 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| Twristiaeth a hamdden | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 1 | 4 | 2 | 0 | 0 | 7 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| Medrau cyfathrebu | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Medrau byw'n annibynnol | | | | | | |
| 2003-2004 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| 2002-2003 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 1 | 4 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| 2000-2001 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Addysg sylfaenol i oedolion | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 6 |
| 2000-2001 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Siart o nifer y colegau addysg bellach yn ennill pob gradd yn y meysydd rhaglen a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Maes rhaglen | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg i oedolion | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 2001-2002 | 1 | 1 | 3 | 0 | 0 | 5 |
| 2000-2001 | 1 | 3 | 2 | 0 | 0 | 6 |
| 1999-2000 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Addysg gyffredinol arall | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2001-2002 | 1 | 5 | 1 | 0 | 0 | 7 |
| 2000-2001 | 1 | 4 | 2 | 0 | 0 | 7 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | | | | | | |
| 2003-2004 | 7 | 9 | 8 | 3 | 0 | 27 |
| 2002-2003 | 7 | 22 | 19 | 4 | 0 | 52 |
| 2001-2002 | 11 | 45 | 26 | 1 | 0 | 83 |
| 2000-2001 | 8 | 47 | 25 | 1 | 0 | 81 |
| 1999-2000 | 2 | 37 | 22 | 4 | 0 | 65 |

## Atodiad 6

Nifer y darparwyr hyfforddiant yn ennill pob gradd yn y meysydd galwedigaethol a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Meysydd galwedigaethol | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2001-2002 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| Adeiladu | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| 2002-2003 | 1 | 0 | 2 | 2 | 0 | 5 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 3 |
| 2000-2001 | 1 | 3 | 2 | 2 | 0 | 8 |
| 1999-2000 | 0 | 2 | 6 | 3 | 0 | 11 |
| Peirianneg | | | | | | |
| 2003-2004 | 1 | 1 | 2 | 2 | 0 | 6 |
| 2002-2003 | 1 | 3 | 4 | 1 | 0 | 9 |
| 2001-2002 | 4 | 5 | 4 | 0 | 0 | 13 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 4 | 3 | 0 | 9 |
| 1999-2000 | 4 | 6 | 2 | 0 | 0 | 12 |
| Gweithgynhyrchu | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| 2001-2002 | 0 | 4 | 1 | 1 | 0 | 6 |
| 2000-2001 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 1999-2000 | 0 | 6 | 2 | 0 | 0 | 8 |
| Cludiant | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli a phroffesiynol | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 1999-2000 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |

Nifer y darparwyr hyfforddiant yn ennill pob gradd yn y meysydd galwedigaethol a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Meysydd galwedigaethol | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu busnes | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| 2002-2003 | 0 | 2 | 6 | 0 | 0 | 8 |
| 2001-2002 | 1 | 0 | 7 | 4 | 0 | 12 |
| 2000-2001 | 2 | 4 | 8 | 3 | 0 | 17 |
| 1999-2000 | 2 | 9 | 9 | 4 | 0 | 24 |
| Manwerthu a gofal cwsmeriaid | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| 2001-2002 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| 2000-2001 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 6 |
| 1999-2000 | 2 | 4 | 6 | 1 | 0 | 13 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| 2002-2003 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2000-2001 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Lletygarwch | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2002-2003 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| 2000-2001 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 3 | 2 | 0 | 5 |
| Trin gwallt a harddwch | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 |
| 2002-2003 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| 2001-2002 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| 2000-2001 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| 1999-2000 | 0 | 1 | 7 | 0 | 0 | 8 |
| Iechyd, gofal a gwasanaethau cyhoeddus | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 1 | 3 | 1 | 0 | 5 |
| 2002-2003 | 0 | 1 | 2 | 2 | 2 | 7 |
| 2001-2002 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 4 |
| 2000-2001 | 1 | 1 | 3 | 4 | 0 | 9 |
| 1999-2000 | 0 | 4 | 8 | 2 | 0 | 14 |

Nifer y darparwyr hyfforddiant yn ennill pob gradd yn y meysydd galwedigaethol a gafodd eu harolygu yn ystod y blynyddoedd 1999-2004

| Meysydd galwedigaethol | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cyfryngau a dylunio | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2002-2003 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 2001-2002 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2000-2001 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 1999-2000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sylfaen i waith | | | | | | |
| 2003-2004 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| 2002-2003 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 6 |
| 2001-2002 | 2 | 4 | 3 | 0 | 0 | 9 |
| 2000-2001 | 0 | 5 | 3 | 0 | 0 | 8 |
| 1999-2000 | 1 | 0 | 7 | 0 | 0 | 8 |
| Pob maes galwedigaethol | | | | | | |
| 2003-2004 | 1 | 10 | 19 | 7 | 0 | 37 |
| 2002-2003 | 8 | 12 | 21 | 11 | 2 | 54 |
| 2001-2002 | 8 | 19 | 23 | 7 | 1 | 58 |
| 2000-2001 | 7 | 23 | 30 | 14 | 0 | 74 |
| 1999-2000 | 10 | 34 | 52 | 14 | 0 | 110 |

Gellir prynu copïau pellach hefyd gan:

Siop Lyfrau TSO
18-19 Heol Fawr
Caerdydd
CF10 1PT